***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1904 (Cy. 276) (C. 117)

# TAI, CYMRU
# DIOGELU DEFNYDDWYR, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2015

*Gwnaed - - - - 11 Tachwedd 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd gan adran 100(3)(b) o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 23 Tachwedd 2015**

**2.** Mae Pennod 3 o Ran 3 (amrywiol a chyffredinol) o'r Ddeddf yn dod i rym ar 23 Tachwedd 2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

**3.** Mae Atodlen 9 i'r Ddeddf yn dod i rym ar 23 Tachwedd 2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

**Dirymu**

**4.** Mae Gorchymyn Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2015(**2**) wedi ei ddirymu.

(**1**) 2015 p. 15.
(**2**) O.S. 2015/1831 (Cy. 267) (C. 115).

***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

11 Tachwedd 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2015 ac yn dwyn i rym, ar 23 Tachwedd 2015, Bennod 3 o Ran 3 (amrywiol a chyffredinol) o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 ("y Ddeddf") at ddibenion sy'n weddill. Mae'r Gorchymyn hwn, felly, yn dwyn i rym ar 23 Tachwedd 2015 y darpariaethau hynny o'r Ddeddf nad ydynt eisoes mewn grym.

Mae Pennod 3 o Ran 3 (amrywiol a chyffredinol) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i asiantau gosod i roi cyhoeddusrwydd i ffioedd perthnasol yn eu mangreoedd ac ar eu gwefan (os oes ganddynt un). Mae Pennod 3 hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi'r ddyletswydd gan bob awdurdod pwysau a mesurau lleol yng Nghymru.

Daeth Pennod 3 o Ran 3 (amrywiol a chyffredinol) i rym pan roddwyd y Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf ar 26 Mawrth 2015 at y dibenion o wneud rheoliadau.

Mae adran 87 (gorfodi dyletswydd asiantau gosod i roi cyhoeddusrwydd i ffioedd) ac Atodlen 9 (dyletswydd asiantau gosod i roi cyhoeddusrwydd i ffioedd: cosbau ariannol) o'r Ddeddf wedi eu cychwyn yn y Gorchymyn hwn. Mae Atodlen 9 yn darparu gweithdrefn ar gyfer apelau yn erbyn cosbau ariannol.